

Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig

Prif Negeseuon a Chamau

Teitl y Cyfarfod	Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig – cyfarfod telegynadledda –			Dyddiad	02.10.2019
Rhif y Cyfarfod	7	Amser Dechrau	1:15	Amser Gorffen	2:00
Yn bresennol	Gareth Bevington (Llywodraeth Cymru - Cadeirydd), Wendy Dodds (Llywodraeth Cymru), James Millington (Llywodraeth Cymru) Helen Bloomfield (Cyfoeth Naturiol Cymru), Maggie Hatton-Ellis (Cyfoeth Naturiol Cymru), Jonathan Monk (Grŵp Porthladdoedd Cymru), Kerstin Kröger (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur)				
Ymddiheuriadau	Chris Jenkins (Llywodraeth Cymru), Eve Read (Dŵr Cymru Welsh Water), Tegryn Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro/Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Rhian Jardine (Cyfoeth Naturiol Cymru), Yolanda Arjona (Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur)				

Rhif	Eitem ar yr Agenda
1	Croeso a chyflwyniadau
2	Yr amserlen flynyddol ar gyfer datblygu Cynllun Gweithredu 2020-2021 ac Adroddiad Blynyddol 2019-2020
3	Is-grŵp Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG)
4	Camau o'r cyfarfod diwethaf

Cyflwyniad

Mae'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchoddedig (MPAMSG) yn sicrhau bod trefniadaeth strategol ar gyfer rheoli pob Ardal Forol Warchoddedig (AFW) yng Nghymru. Mae'r Grŵp yn rhoi cyngor, arweiniad a chyfeiriad i awdurdodau sy'n gyfrifol am reoli AFW. Mae'n hyrwyddo rheolaeth effeithiol ar yr ardaloedd, yn codi proffil y gwaith o'u rheoli ac yn cynyddu cyfraniad awdurdodau rheoli a rhanddeiliaid eraill ledled Cymru.

Daw aelodau'r Grŵp Llywio o'r prif awdurdodau rheoli yng Nghymru, yn unol â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Cynhaliodd y Grŵp Llywio ei 17eg cyfarfod ar 02 Hydref 2019 drwy delegynadledda. Fe welwch fod y prif negeseuon a'r camau gweithredu y penderfynwyd arnynt yn y cyfarfod wedi'u nodi yn y ddogfen hon. Mae cyfrifoldeb ar aelodau'r Grŵp Llywio i roi negeseuon cyson i'w rhwydweithiau.

Os hoffech drafod unrhyw rai o eitemau'r agenda'n fanylach, cysylltwch ag arweinydd eich sector. Os hoffech fanylion cysylltu arweinydd eich sector, e-bostiwch Flwch y Gweinidog Môr a Physgodfeydd: (MarineandFisheriesMinisterialMailbox@gov.wales)

Prif Negeseuon a Chamau

Eitem 2: Amserlen flynyddol ar gyfer y Cynllun Gweithredu a'r Adroddiad Blynyddol

Prif Negeseuon	Camau
<p>Trafododd yr aelodau amserlen ddrafft i'r Grŵp Llywio lunio'r Adroddiad Blynyddol nesaf (2019-2020) a'r Cynllun Gweithredu (2020-2021).</p> <p>Gwnaeth yr aelodau fyfyrir ar eu profiadau o'r cylch diwethaf o lunio Cynllun Gweithredu ac Adroddiad Blynyddol. Roedd y newidiadau a awgrymwyd gan yr Aelodau i'r amserlen sydd ar y gweill yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none">• yr angen i fewnbynnu a rhoi adborth gan yr Is-grŵp Cydnerthedd Bioamrywiaeth Morol newydd WMAAG yn yr Alwad nesaf i Weithredu;• dull llai manwl ar adrodd ganol y flwyddyn sy'n galluogi adnabod unrhyw risgiau i gyflawni;• adolygu'r templedi a ddefnyddiwyd i gasglu gwybodaeth ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol (h.y. adolygiad canol y flwyddyn a'r Alwad am Wybodaeth) i gasglu gwybodaeth hanfodol unwaith y gellir ei hailddefnyddio wedyn;• ystyried y risgiau i ffrydiau cyllido a'r amseriadau; gan gyfathrebu hyn i'r Grŵp Llywio pan fo'n bosibl;• dylid cynnwys amser digonol er mwyn sgorio camau gan aelodau unigol, gwaith casglu gan yr ysgrifenyddiaeth a chyd-drafod a dod i gytundeb consensws gan y Grŵp Llywio;• yr awydd i'r Adroddiad Blynyddol fod yn fwy gweledol a chael mwy o effaith ar y darlennydd, gan gynnwys cyfathrebu'r prif negeseuon. Felly, dylid clustnodi mwy o amser i syntheseiddio a gwneud yn fwy gweledol yr amrywiaeth o gamau a gyflawnwyd a'r llwyddiannau;• amser digonol ar gyfer drafftio, cymeradwyo a chyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gweithredu. <p>Cytunodd yr aelodau ar amserlen (Atodiad 1).</p>	<p>Llywodraeth Cymru i lunio templed, canllawiau gydag enghreifftiau gweithiol i gefnogi cyflwyno camau o dan yr Alwad nesaf i Weithredu.</p> <p>Llywodraeth Cymru i adolygu ffurflenni profforma sy'n gysylltiedig â'r Adroddiad Blynyddol (h.y. adolygiad canol y flwyddyn a'r Alwad am Wybodaeth).</p>

Eitem 3: Is-grŵp WMAAG

Prif Negeseuon	Camau
<p>Gwnaeth yr aelodau groesawu cynigion gan Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru o ran creu is-grŵp i WMAAG ar Gydnerthedd Bioamrywiaeth Morol.</p> <p>Gwnaeth yr aelodau drafod a chytuno ar broses gydweithredol ar gyfer trafod â'r Is-grŵp ynghylch datblygu'r Cynllun Gweithredu nesaf (2020-2021), gan gynnwys y dull ar gyfer yr Is-grŵp cyntaf pan fydd yr Alwad i Weithredu yn cael ei hagor a'i thrafod er mwyn galluogi cyflwyniadau effeithiol.</p>	<p>Llywodraeth Cymru / CNC i sicrhau bod yr agenda ar gyfer cyfarfod 1af yr Is-grŵp yn cynnwys dyddiadau ar gyfer Galwad i Weithredu'r Cynllun Gweithredu (agor a chau).</p>

Eitem 4: Camau o'r cyfarfod diwethaf

Prif Negeseuon	Camau
<p>Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd unrhyw gamau'n weddill ers y cyfarfod diwethaf (16 Mai 2019).</p>	

Atodiad 1: Amserlen Flynyddol

AMSERLEN FLYNYDDOL 2019-2020		
MIS	CYNLLUN GWEITHREDU	ADRODDIAD BLYNYDDOL
Hydref 2019	<p><u>Cyfarfod</u> Rhithwir Grŵp Llywio Rheoli'r AFW:</p> <ul style="list-style-type: none"> Trafod a chytuno ar amser ar gyfer datblygu'r Cynllun Gweithredu a'r Adroddiad Blynyddol Trafod a chytuno ar y dull ar gyfer cyfarfod is-grŵp WMAAG sydd ar y gweill 	
Tachwedd 2019	<p>Y Cynllun Gweithredu i fod yn eitem ar agenda <u>gweithdy</u> Is-grŵp Cydnerthedd a Bioamrywiaeth Morol WMAAG (13 Tachwedd) er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> Darparu trosolwg o'r Fframwaith, diben y cynllun gweithredu a 	

	<p>chrynodeb o gynllun gweithredu cyfredol 2019-2020</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno'r amserlen sydd i ddod gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ agor Galwad i Weithredu ar gyfer Cynllun Gweithredu 2020-2021 (3 mis, dyddiad cau ynghanol mis Ionawr) ○ cyfle i bartneriaid i roi diweddariadau ar y camau sy'n cydweddu â'r Cynllun Gweithredu (yn ogystal ag i bartneriaid roi diweddariad ar gamau'r Cynllun Gweithredu). • Cyflwyno canllawiau / meini prawf blaenoriaethu ar gyfer camau sgorio, gydag enghreifftiau gweithiol • Adborth gan randdeiliaid 	
	<p>Cais am wybodaeth drwy dempled ar adolygiad canol blwyddyn o gamau 2019-2020</p>	
<p>Rhagfyr 2019</p>	<p>Cyfarfod Rhithwir Grŵp Llywio Rheoli'r AFW:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diweddariad ar lafar ar gynnydd adolygiad canol blwyddyn o Gynllun Gweithredu 2019-2020 • Adborth o'r Is-grŵp WMAAG • Trafod fformat yr Adroddiad Blynyddol a'r wybodaeth sydd angen ei chasglu • Diweddariad (lle y bo'n bosibl) ar lefelau cyllido'r dyfodol a'r risgiau 	
<p>Ionawr 2020</p>	<p>Cau'r Alwad i Weithredu'r Cynllun Gweithredu (ganol mis Ionawr)</p> <p>Sgorio'r camau a chyflwyno'r sgoriau i'r ysgrifenyddiaeth</p>	
<p>Chwefror 2020</p>	<p>Sgorio'r camau – gwaith casglu gan yr ysgrifenyddiaeth</p> <p><u>Gweithdy</u> Grŵp Llywio Rheoli'r AFW (ganol mis Chwefror):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytuno ar gamau i'w symud ymlaen o'r Cynllun Gweithredu 	

	<p>cyfredol i'r Cynllun Gweithredu nesaf</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygu camau a gyflwynwyd drwy'r alwad, gan gynnwys dileu camau sy'n anghyson â'r egwyddorion rheoli • Cytuno ar sgôr consensws y camau <p>Cyfarfod rhithwir yr Is-grŵp Cydnerthedd a Bioamrywiaeth Morol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Cyflwyno a thrafod canlyniadau'r Grŵp Llywio h.y. y sgorio a'r blaenoriaethu <p>Grŵp Llywio Rheoli'r AFW (drwy ohebiaeth):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytuno ar y rhestr derfynol o gamau ac ystyried lle y gallai fod angen cyllid 	
Mawrth 2020	Cadarnhau bod y gyllideb ar gael (os yw'n bosibl) a'i dyrannu fel y bo'n briodol i'r rhestr gytunedig o gamau sydd angen cyllid.	Agor Galwad am Wybodaeth yr Adroddiad Blynyddol (2 fis, dyddiad cau ddiwedd mis Ebrill)
Ebrill 2020	Dosbarthu llythyrau grant i'r rhai sydd wedi sicrhau cyllid.	Cau Galwad am Wybodaeth yr Adroddiad Blynyddol
Mai 2020	<p>Grŵp Llywio Rheoli'r AFW (drwy ohebiaeth):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytuno ar gynnwys y Cynllun Gweithredu drafft • Drafftio, dyluniad llawn a chyfieithu'r Cynllun Gweithredu 	<p>Grŵp Llywio Rheoli'r AFW (drwy ohebiaeth):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytuno ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol drafft • Drafftio, dyluniad llawn a chyfieithu'r Adroddiad Blynyddol
Mehefin 2020	Cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu terfynol gan Grŵp Llywio Rheoli'r AFW a'r Gweinidog	Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol terfynol gan Grŵp Llywio Rheoli'r AFW a'r Gweinidog

Gorffennaf 2020	Cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu	Cyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol
Awst 2020	Cyflawni'r camau	